Llythyr yr Esgob Haf 2024

Fy Annwyl Chwiorydd a Brodyr,

Mae chwe mis bellach ers i mi gael fy nghysegru a'm gorseddu'n Esgob Tyddewi, mae cymaint wedi digwydd mewn cyfnod byr o amser, ac rwy'n ymwybodol iawn o'r tasgau a'r cyfrifoldebau sydd o'm blaen. Yr wyf fi, a'm teulu wedi bod yn ddiolchgar iawn ac wedi ein cyffwrdd gan y negeseuon caredig o gynhesrwydd a chroeso a gawsom; teimlwn yn freintiedig iawn ein bod yn perthyn i deulu Esgobaeth Tyddewi ac yn ymrwymo ein hunain i wasanaethu'r eglwys wrth inni fynd ymlaen gyda'n gilydd.

Adlewyrchir delwedd gref o'n bywyd Cristnogol a'n tystiolaeth yn yr esgobaeth hon mewn Pererindod. Mae ein Mam Eglwys, (yr Eglwys Gadeiriol) wedi bod yn ganolbwynt pererindod ers canrifoedd ac mae wedi ein dysgu y gall y teithiau a gymerwn ddod â ni yn nes at Dduw wrth inni rannu'r Efengyl. Dywedodd y Pâb Ffransis yn ddiweddar, "Cofiwch hyn bob amser: taith yw bywyd. Mae'n llwybr, yn daith i gwrdd â Iesu." Dyna daith y Cristion.

Weithiau ar bererindod cymerir ni allan o'n ffordd gysurus, allan o amgylchoedd arferol a chyfarwydd ein bywyd ; efallai fod rhai ohonom yn teimlo fel hyn yn awr, yn enwedig wrth inni fabwysiadu ffyrdd newydd o geisio bod yn eglwys ac asesu lle rydym ar ein taith gyda'n gilydd. Nid yw hyn bob amser yn hawdd, a bob amser yn heriol. Beth bynnag, yma y byddwn yn aml yn dod ar draws y Duw byw. Efallai bod angen inni edrych yn fanwl ar beth yw pwrpas ein pererindod Esgobaethol, mae'n ymwneud â chaledi a llawenydd, gwneud aberthau a derbyn bendithion. Fel teulu i Dduw, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni ganolbwyntio nid yn unig ar y bererindod ond hefyd ar ein cyrchfan.

Yn ddiweddar des ar draws hen lun ohonof fy hun gyda chriw o bobl ifanc ar bererindod i Ynys Iona. Fe'i harweiniwyd gan yr Esgob Wyn Evans, a daeth â llawer o atgofion hapus . Wrth fyfyrio ar hynny, a phererindodau eraill sylweddolais nad oedd yr hyn a ddysgais amdanaf fy hun, a'r eglwys yn cael ei gyflawni ar ei ben ei hun. Fel teulu Duw ar ein pererindod yr ydym yn teithio fel un. Dyma wir adlewyrchiad bywyd Cristnogol, un corff ydym ni (1 Cor 12.12). Fel Cristnogion nid perthynas breifat sydd gennym â Christ, ond perthynas bersonol â Christ, a cheir y berthynas bersonol hon ochr yn ochr ag eraill. Yn ein rhannu, rydym yn dod o hyd i Iesu.

Trwy gydol y Testament Newydd nid yw delwedd yr eglwys yn unigolyddol, mae'n gymuned (1 Pedr 1. 15-16.). Cyd-deithiwn, cydweithiwn, cydaddolwn, gweddïwn a charwn gyda'n gilydd. Mae ein pererindod yn cael ei chynnal gyda'n gilydd gan Grist, mae'n ein galluogi i fynd ymlaen. Pan fyddwn ni'n cwympo, mae'n ein codi ni, pan rydyn ni'n blino, mae'n rhoi nerth i ni, a thrwy ei Ysbryd Glân, mae'n ein hadfywio ac yn ein hannog i symud ymlaen tuag at ein nod.

Mae ein hesgobaeth wedi dod i gyffordd ar ein taith, yn amser i oedi ac ystyried ein dewisiadau a'r ffordd ymlaen, mae angen i ni ymddiried a gosod ein llygaid ar Iesu. I ni "Mae'r dyfodol yn

dechrau heddiw, nid yfory". Mae'r cyfle wedi dod i ni baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol gwell a thaith fwy ddiogel. Gyda'n pererindod yn dechrau o'r newydd gallwn fyw bob dydd gyda ffydd o'r newydd, gobaith wedi'i wireddu, gyda chymhelliant i wneud bywyd ein hesgobaeth y gorau y gall fod i chi, a'r bobl o'ch cwmpas.

Yng nghariad Crist,
+Dorrien Tyddewi